# Diweddariad CPCC

Chewfror 2026

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

## Pwy ydyn ni a beth rydyn ni'n ei wneud

**Cysylltu tystiolaeth â phenderfyniadau i wella polisïau a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru**

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn pontio'r bwlch rhwng ymchwil a gwneud penderfyniadau drwy sicrhau bod tystiolaeth drylwyr ac arbenigedd yn hygyrch, yn berthnasol, ac yn ymarferol i lunwyr polisïau, ymarferwyr ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru.

### Ein gweledigaeth

Cymru lle mae polisïau ac ymarfer cyhoeddus yn cael eu siapio'n gyson gan y dystiolaeth a'r wybodaeth orau sydd ar gael, gan arwain at wasanaethau cyhoeddus sy'n fwy effeithiol, teg ac ymatebol.

### Ein cenhadaeth

**NODI**

Rydyn ni'n gweithio ar y cyd â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i'w helpu i nodi eu heriau polisi mwyaf difrifol a chreu cyfleoedd ystyrlon er mwyn creu atebion sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

**YMGYNNULL**

Rydyn ni'n dadansoddi ac yn cyfosod ymchwil o safon uchel mewn modd amserol, ac rydyn ni'n ymgynnull arbenigwyr rhyngwladol blaenllaw i wella penderfyniadau polisi, a'r broses o'u rhoi ar waith.

**DATBLYGU**

Rydyn ni'n datblygu gwybodaeth ym maes polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth drwy rannu'r hyn rydyn ni'n ei ddysgu, gwerthuso effaith, a chyfrannu at gronfa wybodaeth gynyddol o'r hyn sy'n gweithio'n ymarferol.

Rydyn ni wedi cynnal dros 220 o brosiectau, wedi sefydlu cysylltiadau gyda rhwydwaith byd-eang o ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw, ac wedi datblygu dull arobryn o ddefnyddio tystiolaeth.

## Ymchwil ac effaith

Mae ein holl waith ar gyfer llunwyr polisïau yng Nghymru wedi'i ategu gan ymchwil academaidd sy'n arwain y sector ar yr hyn sy'n gweithio er mwyn pontio'r bwlch rhwng ymchwil a llunio polisïau.

O ganlyniad, mae llywodraethau ledled y byd yn ymgynghori â ni'n aml, ac rydyn ni'n awyddus i efelychu'r model rydyn ni wedi'i greu.

**Rydyn ni'n darparu tystiolaeth annibynnol, gadarn a pherthnasol mewn modd amserol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau**

**Nodi**

Rydyn ni'n helpu'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau i nodi ymatebion polisi effeithiol ac atebion ymarferol i rai o'u heriau polisi mwyaf.

**Ymgynnull**

Dwyn tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol ynghyd i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth yw ein rôl.

**Datblygu**

Caiff ein dull ei ategu gan dystiolaeth academaidd am yr hyn sy'n gweithio i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth.

# Ein gwaith

Rydyn ni wedi datblygu tri maes blaenoriaeth yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r heriau polisi mwyaf sy'n wynebu llunwyr polisïau lleol a chenedlaethol yng Nghymru:

- Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau
- Yr Amgylchedd a Sero Net
- Llesiant Cymunedol

Ochr yn ochr â'r rhain, rydyn ni'n arwain cydweithrediad â Chyngor Rhondda Cynon Taf, sef Cydweithrediad Ymchwil i Benderfynyddion Iechyd (**CYBI**) Rhondda Cynon Taf. Yn ddiweddar, mae CYBI Rhondda Cynon Taf wedi lansio ei brosiectau cyntaf ar dlodi plant, gwariant ataliol, gwell mynediad at wasanaethau a gwydnwch cymunedol. Nod CYBI Rhondda Cynon Taf yw creu diwylliant ymchwil bywiog yn yr awdurdod lleol, sy'n sbarduno penderfyniadau ar sail tystiolaeth i dorri'r cylch tlodi, gwella cyfleoedd bywyd y rhai mwyaf difreintiedig, a mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd.

Mae gennyn ni 12 mlynedd o brofiad o lunio polisïau yng Nghymru, gan gefnogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau gyda thystiolaeth ac arbenigedd annibynnol a llunio polisïau a dulliau o'u gweithredu mewn ystod eang o feysydd, gan gynnwys yr amgylchedd, cyfiawnder cymdeithasol, llywodraethu, iechyd ac addysg. Rydyn ni hefyd yn cadw'r hyblygrwydd a'r arbenigedd i allu ymgymryd â phrosiectau ymchwil eraill mewn ymateb i anghenion tystiolaeth llunwyr polisïau.

# Uchafbwyntiau diweddar

## Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau

Mae'r cynnydd mewn costau byw yn parhau i effeithio ar allu llawer o aelwydydd i gael dau ben llinyn ynghyd. Mae grwpiau penodol, fel pobl anabl, plant a phobl ifanc, a phobl ethnig leiafrifol, yn anghymesur fwy tebygol o brofi tlodi.



Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus i ddarparu tystiolaeth ac arbenigedd annibynnol ac awdurdodol i lywio'r gwaith o ddatblygu dulliau polisi ac ymarfer effeithiol i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau ehangach yng Nghymru. Mae'r gwaith diweddar yn cynnwys y canlynol:

### Stigma tlodi

Yn 2024, datgelodd **arolwg YouGov**, a gomisiynwyd gennym ni ochr yn ochr â Sefydliad Bevan a'r Arsyllfa Polisi Cyhoeddus Rhyngwladol, fod un o bob tri oedolyn sydd ag incwm blynyddol o <£20,000 yn profi stigma tlodi 'bob amser', 'yn aml' neu 'weithiau'.

Dyma beth rydyn ni'n ei wneud i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus a llunwyr polisïau i ddeall stigma tlodi yn well, yn ogystal â'r hyn y gallant ei wneud i sicrhau bod eu gwasanaethau'n lleihau yn hytrach na chreu/lledaenu stigma tlodi:

- Cynnal **Rhwydwaith Deall Stigma Tlodi**, rhwydwaith ledled y DU o unigolion a sefydliadau sydd â phrofiad bywyd a phrofiad a ddysgwyd, ac sydd â'r nod cyffredin o geisio deall, atal a mynd i'r afael â stigma tlodi yn well.
- Darparu adolygiad cyflym o dystiolaeth ynghylch 'beth sy'n gweithio' i atal a mynd i'r afael â stigma tlodi.
- Darparu **rhaglen waith sy'n seiliedig ar le** gyda Chyngor Abertawe a chomisiynwyr realiti tlodi Abertawe i ganfod atebion ar gyfer Abertawe yn seiliedig ar wybodaeth leol a thystiolaeth ryngwladol.

Drwy'r gwaith hwn, ein nod yw cefnogi Llywodraeth Cymru a phartneriaid i gyflawni Amcan 4 ei Strategaeth Tlodi Plant i 'herio stigma tlodi' a bwydo i mewn i'r Cymunedau Ymarfer sydd wedi cael eu datblygu i helpu i roi'r Strategaeth ar waith.

## Tegwch mewn addysg drydyddol

Amddifadedd aelwydydd a chefndir economaidd-gymdeithasol yw'r ffactorau mwyaf arwyddocaol sy'n effeithio ar ba lwybrau ôl-16 sy'n cael eu dilyn gan ddysgwyr yng Nghymru.

Dyma oedd pennawd **ein hymchwil** i ddeall yn well yr annhegwch ym maes addysg drydyddol yng Nghymru, a'r polisïau a allai helpu i fynd i'r afael â nhw.

Cafodd yr ymchwil ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi Medr yn ei gylch gwaith i hybu cyfleoedd cyfartal.

Buom yn gweithio gydag ADR Cymru i **ddadansoddi data** ac archwilio pa grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli mewn addysg drydyddol, a sut. Fe wnaethom gynnal adolygiad tystiolaeth o'r dulliau polisi ac ymarfer perthnasol a ddefnyddiwyd i wella tegwch mewn addysg drydyddol yn Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon. Yn olaf, fe wnaethom wahodd academyddion addysg blaenllaw i **fyfyrio** ar yr ymchwil hon, ac i ystyried beth y gellir ei wneud i wella tegwch ym maes addysg drydyddol yng Nghymru.

Fe wnaethom hefyd gefnogi Medr drwy gyfres o weithdai i'w helpu i fyfyrio ar yr ymchwil hon, yn ogystal ag ymchwil ychwanegol gan CPCC – **Llunio Polisïau gyda Meddylfryd Weithredu** – i gryfhau eu tegwch mewn strategaethau addysg drydyddol a chynlluniau gweithredol.

**'Mae hwn yn gam pwysig ymlaen i nodi rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael mynediad at addysg drydyddol a llwyddo ynddi. Bydd hefyd yn helpu Medr i gynyddu cyfranogiad a hyrwyddo mynediad cyfartal at addysg drydyddol yng Nghymru i'r rhai o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.'**

**Vikki Howells, Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch Llywodraeth Cymru**

## Defnyddio tystiolaeth i ddeall a mynd i'r afael â'r argyfwng llety dros dro


Mae nifer y bobl sy'n ddigartref yn dal yn uchel, gyda'r ffigurau diweddaraf yn dangos yr aseswyd bod 13,287 o aelwydydd yng Nghymru yn ddigartref, a bod dyletswydd ar awdurdodau lleol i'w helpu i sicrhau llety. Yng nghanol yr argyfwng hwn mae'r cynnydd sydyn yn y defnydd o lety dros dro i gartrefu unigolion, gyda 10,941 o bobl wedi'u cartrefu mewn llety dros dro ym mis Gorffennaf 2025. Gall llety dros dro effeithio'n negyddol ar iechyd a llesiant trigolion, gan ddwysáu tlodi ac anghydraddoldeb yn aml. Mae hefyd wedi arwain at gynghorau yn gwario ar lefelau anghynaliadwy na welwyd eu tebyg o'r blaen, gyda'r adroddiad diweddaraf gan Archwilio Cymru yn datgelu bod gwariant cynghorau ar lety dros dro yng Nghymru wedi cynyddu o £28 miliwn yn 2019 i £172 miliwn erbyn 2023-24.

Er mwyn rhannu gwybodaeth a dadansoddiadau diweddar ar lety dros dro yng Nghymru, fe wnaethom gynnal Gweithdy Gwybodaeth ar gyfer awdurdodau lleol.

Clywsom gan arbenigwyr ac ymchwilwyr blaenllaw, ynghyd â gweithwyr proffesiynol ym maes tai a digartrefedd o'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru. Roedd yn amlwg bod yr her o ddiwallu anghenion llety dros dro yn amrywio o gyngor i gyngor, ond mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn delio â'r galw a'r costau digynsail ac anghynaladwy yn y maes hwn. Rydyn ni **wedi lansio 'galwad agored'** i gynnig cyfle i awdurdodau lleol gydweithio â ni a'r Ganolfan Effaith Ddigartrefedd i gael gafael ar dystiolaeth a gwybodaeth, fel y gallant eu defnyddio i fynd i'r afael â her ddigartrefedd a'r angen am lety dros dro.



## Yr amgylchedd a sero net




Nid argyfyngau yn y dyfodol yw'r argyfwng hinsawdd a byd natur mwyach; mae eu heffeithiau i'w gweld yn awr. Mae mynd i'r afael â hwy yn her strategol a gweithredol sylweddol i lunwyr polisïau ar bob lefel, yn ogystal â'r sector preifat a'r trydydd sector, gyda'r risg y gallai costau effeithio yn anghymesur ar gymunedau sydd eisoes yn wynebu anawsterau. Mae ein gwaith diweddar a pharhaus yn cynnwys:

### Grŵp Her Sero Net Cymru 2035

Buom yn cefnogi gwaith y Grŵp Her drwy ddarparu tystiolaeth a chynnal ei wasanaeth ysgrifenyddol. Buom yn llunio adolygiadau tystiolaeth ym mhum maes her y Grŵp: bwyd, ynni, trafnidiaeth, tai, ac addysg a sgiliau, yn ogystal â gwybodaeth ychwanegol drwy blogiau gwadd ac arbenigedd arall.

**'Ar y llwybrau tuag at sero net, roedd yn hanfodol bod ein hadroddiadau yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, ac felly roedd gwaith annibynnol WCPP i gefnogi'r grŵp yn gyfraniad hanfodol.'**

**Jane Davidson, Cadeirydd, Grŵp Her Sero Net Cymru 2035**

Yn yr ymgyrch tuag at sero net, buom yn cydweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ar ran awdurdodau lleol i archwilio atebion ariannol a newidiadau mewn ymddygiad. Fe wnaethon ni gyflwyno tystiolaeth ac astudiaethau achos ar y polisïau a'r dulliau gweithredu a ddilynwyd gan lywodraethau lleol a gwledydd bach a rhanbarthau datganoledig eraill i leihau allyriadau'r sector cyhoeddus.

Rydyn ni'n darparu tystiolaeth i Lywodraeth Cymru ar sut mae gwledydd eraill wedi datblygu polisïau, cynlluniau a rheoliadau perthnasol er mwyn llywodraethu Marchnadoedd Carbon Gwirfoddol yn well, a dangos sut y gellid rhoi'r gwersi hyn ar waith yng Nghymru.

Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda Chyngor Caerdydd er mwyn cefnogi mentrau i hyrwyddo'r agenda sero net.

## Llesiant Cymunedol

Mae cymunedau, ochr yn ochr â llywodraeth genedlaethol a lleol, yn bartner ac yn ased hanfodol er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar y cyd ar gyfer Cymru. Roedd eu hystwythder a'u gallu i gydweithio ac arloesi yn rhan hanfodol o'n hymateb cenedlaethol i bandemig Covid-19. Oherwydd bod gan y sector cyhoeddus llai o gapasiti, mae angen i'r sector barhau i ddod o hyd i ffyrdd o gydweithio'n fwy effeithiol gyda'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu i wneud cynnydd yn erbyn heriau allweddol, fel tlodi, allgáu cymdeithasol, a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Rydyn ni'n darparu polisïau a gwasanaethau ymarferol effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i Lywodraeth Cymru, llywodraeth leol, a gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol er mwyn cefnogi, cynnal a gwella llesiant cymunedol a chydweithrediad aml-sector.

## Cydweithio aml-sector i wella llesiant cymunedol

Gyda'r Bartneriaeth Cymunedau Dyfeisgar, fe wnaethom lunio **adolygiad tystiolaeth** ar y camau ymarferol y gall y llywodraeth, gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau eu cymryd er mwyn cydweithio'n well i hyrwyddo llesiant cymunedol. Mae'r adolygiad yn cynnwys tystiolaeth o ymchwil ochr yn ochr â dysgu o ymarfer. Fe wnaethon ni hefyd greu **Fframwaith ar gyfer Gweithredu** sy'n darparu adnodd ar gyfer cydweithio aml-sector mewn gwahanol gyd-destunau.

Er mwyn cynyddu gwerth a pherthnasedd y dystiolaeth hon i weithredwyr yn y sector cyhoeddus a chymunedol, rydyn ni nawr yn gweithio fel rhan o Bartneriaeth Cymunedau Dyfeisgar gydag amrywiaeth o randdeiliaid i gyd-greu adnodd rhyngweithiol. Bydd hyn yn caniatáu i bobl lywio ac ystyried y sylfaen dystiolaeth ac adnoddau ehangach mewn ffordd sy'n sensitif i'w hamcanion, eu hanghenion a'u cyd-destun. Bydd yr adnodd hwn yn cael ei deilwra i gyd-destun Cymru, a bydd yn cyd-fynd â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i ffordd o weithio.

**'Mae natur yr ymchwil hon gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn cofleidio partneriaethau traws-sector a'r ysbryd o gydweithio sy'n hanfodol i Bartneriaeth Cymunedau Dyfeisgar a'i aelodau.'**

**Rhian Bennett, Uwch Reolwr Comisiynu, Cyngor Sir Penfro**

## Gweithgor Annibynnol ar Lywodraeth Leol Gynaliadwy ar gyfer y Dyfodol

Ynghyd â CLILC, rydyn ni wedi bod yn arwain gweithgor i ddatblygu gweledigaeth gynaliadwy ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn cefnogi'r farn nad yw'r model presennol ar gyfer llywodraeth leol yn gynaliadwy a bod gweledigaeth newydd yn bwysig os yw llywodraeth leol am barhau i wasanaethu ei dinasyddion ymhell i'r dyfodol.

Mae'r Gweithgor Annibynnol ar Lywodraeth Leol Gynaliadwy ar gyfer y Dyfodol yn cael ei gadeirio gan yr Athro Steve Martin, Cyn-gyfarwyddwr Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, ac mae'n cynnwys aelodau etholedig a phrif weithredwyr o awdurdodau lleol Cymru ac aelodau annibynnol, gan gynnwys:

Max Caller, Cyn-brif Gomisiynydd Cyngor Dinas Birmingham.

Mae'r gweithgor wedi cyhoeddi **papur sefyllfa** sy'n amlinellu barn y grŵp ar sut y gall cynghorau ddiogelu eu hunain at y dyfodol yn wyneb y galw cynyddol ar wasanaethau cyhoeddus. Pwysleisiodd y grŵp mai democratiaeth leol yw gwerth unigryw llywodraeth leol. Er mwyn ymateb yn effeithiol i anghenion unigol cymhleth, mae angen gweithredu mewn ffordd gydgysylltiedig sy'n cael ei hwyluso gan gydlynu ar draws ffiniau sefydliadol ac ar draws sectorau.


**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**
Caerdydd, Sbarc | Spark,
Heol Maendy, Caerdydd CF24 4HQ

www.wcpp.org.uk
info@wcpp.org.uk
029 2087 5345
@WCfPP
/company/wcfpp



Cardiff University Prifysgol Caerdydd
UKRI Economic and Social Research Council
Llywodraeth Cymru Welsh Government